# Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr

| | |
|---|---|
| Enw'r sefydliad | Prifysgol Glyndŵr Wrecsam |
| Cyfnod adrodd | 2022-2023 |
| Y dyddiad y'i cymeradwywyd gan y corff llywodraethu | 10.03.23 |
| Y dyddiad y'i cyhoeddwyd ar-lein | 04.04.23 |
| Cyfeiriad gwe'r adroddiad blynyddol | https://glyndwr.ac.uk/cy/ymchwil/ein-hymchwil/concordat-datblygu-ymchwilwyr/ |
| Cyfeiriad gwe tudalen we Concordat Datblygu Ymchwilwyr y sefydliad | https://glyndwr.ac.uk/cy/ymchwil/ein-hymchwil/concordat-datblygu-ymchwilwyr/ |
| Unigolion cyswllt ar gyfer cwestiynau / pryderon yn ymwneud â datblygu gyrfa ymchwilwyr | Yr Athro Mandy Robbins<br>m.robbins@glyndwr.ac.uk<br><br>Miss Frances Thomason<br>Frances.thomason@glyndwr.ac.uk |
| Y dyddiad yr anfonwyd y datganiad at ysgrifenyddiaeth y Concordat Datblygu Ymchwilwyr trwy gyfrwng CDRsecretariat@universitiesuk.ac.uk | [y dyddiad y'i hanfonwyd at yr ysgrifenyddiaeth] |

-

**Datganiad ynglŷn â'r modd y mae'r sefydliad yn creu, yn cynnal ac yn ymwreiddio diwylliant ymchwil sy'n cynnal amgylchedd cadarnhaol a chynhwysol i ymchwilwyr ym mhob cyfnod yn eu gyrfaoedd.**

Mae ymrwymiad y Brifysgol i'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr yn sail i'r ymgysylltu a wnawn gyda'n holl ymchwilwyr – yn staff ac yn fyfyrwyr – a'r cymorth a gynigir ac a roddir iddynt. Trwy sicrhau y bydd y Concordat o fudd i'r holl staff academaidd a thrwy gynrychioli datblygiad trwy gylch oes gyrfaoedd, byddwn yn cryfhau mwy fyth ar ein hymrwymiad i ddatblygu ymchwil.

Ers llofnodi'r Concordat Datblygu, fe fydd Bwrdd y Llywodraethwyr wedi darllen a chymeradwyo'r adroddiadau blynyddol a'r cynlluniau gweithredu i gyd. Y Dirprwy Is-ganghellor dros Ymchwil sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r Concordat a'r Pwyllgor Ymchwil sy'n gyfrifol am oruchwylio'r trefniadau llywodraethu ffurfiol. Mae aelodau'r Pwyllgor Ymchwil yn cynnwys uwch-reolwyr, arweinwyr ymchwil, staff ymchwil ar gontract, a chynrychiolwyr myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

Ers dod yn llofnodwyr, mae'r Brifysgol wedi ffurfio Gweithgor Concordat Datblygu Ymchwil sy'n cynnwys 10 o academyddion (2 athro, 1 prif ddarlithydd, 3 uwch-ddarlithydd, 3 darlithydd, 1 Cynorthwyydd Ymchwil) ac 8 o staff gwasanaethau proffesiynol. Mae gan y Gweithgor gyfrifoldeb gweithredol uniongyrchol dros y Concordat Datblygu, a oruchwylir gan Swyddfa Ymchwil y Brifysgol ac a gadeirir gan y Deon Cyswllt ar gyfer Ymchwil/Tiwtor Datblygu Ôl-raddedigion, sef yr Athro Mandy Robbins.

**Amcanion strategol y sefydliad a'i gynlluniau gweithredu ar gyfer cyflawni tair colofn y Concordat**

Mae'r amcanion strategol canlynol wedi deillio o gynllun strategol gwreiddiol y Brifysgol wrth lofnodi'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr.

<u>Amgylchedd a diwylliant</u>

Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith cynhwysol a thryloyw sy'n mynd ati'n effeithiol i hyrwyddo diwylliant ymchwil cadarnhaol – rhywbeth a fydd, yn ei dro, yn cynnal ein huchelgeisiau i gynyddu ein capasiti a'n gallu o ran ymchwil. Bydd y Brifysgol yn neilltuo amser i adolygu a hyrwyddo cywirdeb ymchwil ac arferion gorau'n ymwneud ag ymchwil. Ochr yn ochr â'r gyfres lwyddiannus 'Tŷ Agored ar gyfer Ymchwil', dros y ddwy flynedd nesaf bydd y swyddfa ymchwil yn treialu Boreau Coffi Ymchwil, Caffis Diwylliant a

Chyfres o Ddarlithoedd Cyhoeddus ar gyfer y staff a'r myfyrwyr i gyd. Y nod yw creu diwylliant lle gall ymchwilwyr gyfrannu at drafod yr heriau a wynebant, adolygu'r pethau a wnawn yn dda eisoes, a rhannu'n ehangach sut beth fyddai diwylliant gwell, gan hyrwyddo'u hunaniaeth ymchwil eu hunain. Ymhellach, bydd nifer o'r camau a gymerwn dros y ddwy flynedd nesaf yn cynnwys sut i gyfathrebu'n effeithiol â'n cymuned ymchwil, a'r bwriad yw bod yn fwy presennol ar y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â chynnal nifer o ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol ac ail-lansio ein tudalennau gwe mewnol ac allanol. Bydd ymrwymiad i sicrhau Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant ac Iechyd Meddwl a Llesiant ein staff a'n myfyrwyr yn cael ei ymwreiddio yn hyn oll. Wrth inni barhau i wneud cynnydd o ran Siarter Cydraddoldeb Hil Advance HE, bydd y Brifysgol yn neilltuo amser ac adnoddau ar gyfer creu offer a chyfleoedd hyfforddi effeithiol ar gyfer amgylchedd gwaith ac ymchwil cynhwysol.

Cyflogaeth

Mae'r Brifysgol yn ymdrechu i greu amgylchedd lle caiff ymchwilwyr eu recriwtio, eu cyflogi a'u rheoli dan amodau sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau. Y canolbwynt yw parhau i ddatblygu ein proses gynefino fel y gallwn gryfhau dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu'n ymwneud ag ymchwil pan fydd y broses gynefino'n cael ei chynnal, er mwyn ymwreiddio ymdeimlad o ddiwylliant ymchwil ynghyd ag ymdeimlad o gymuned yn ystod cyfnodau cynnar y broses recriwtio. Ymhellach, dros y ddwy flynedd nesaf bwriadwn hyrwyddo mwy ar ein rhaglenni 'arweinwyr y dyfodol' ac adolygu cynlluniau rheoli ymchwil posibl. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r holl ymchwilwyr, yn ystod unrhyw gyfnod yn eu gyrfa, ynglŷn â thrafodaethau perthnasol yn ymwneud â llunio polisïau a gwneud penderfyniadau.

Datblygiad Proffesiynol Ymchwilwyr

Yn strategol, un o flaenoriaethau'r Brifysgol yw *Datblygu capasiti a gallu ymchwil y brifysgol trwy ddatblygu ei staff.* Ein hymrwymiad o ran egwyddorion y Concordat yw parhau i weithredu a hyrwyddo amser ac ymdrech yn y dasg o ddatblygu staff a myfyrwyr ac anghenion hyfforddi. Mae'r Swyddfa Ymchwil yn dymuno creu proses ar gyfer diffinio a phennu beth yw datblygiad proffesiynol i ymchwilwyr, a'r modd y gellir adnabod y gweithgareddau hyn o fewn model dyrannu llwyth gwaith y brifysgol. Rhoddwyd strategaethau cyfathrebu ar waith yn ein cynllun gweithredu diweddaraf – er enghraifft, ymgyrch yn hyrwyddo datblygiad ymchwil. Un o'n prif flaenoriaethau dros y ddwy flynedd nesaf fydd gweithio gydag ymchwilwyr a Chanolfannau/Sefydliadau Ymchwil er mwyn gwneud ein hymchwil yn fwy gweledol ac amlwg a meithrin ein hunaniaeth a'n presenoldeb ymchwil fel Prifysgol. Ymhellach, rydym yn gobeithio cynyddu a

| |
|---|
| hyrwyddo ymchwil dan gontract a gwasanaethau ymgynghori yn ein hardaloedd lleol a rhanbarthol. |

| **Crynodeb o'r camau a gymerwyd ynghyd â gwerthusiad o'r cynnydd a wnaed yn y cyfnod adrodd presennol o ran gweithredu eich cynllun i ategu'r tair colofn mewn perthynas â phob un o'ch grwpiau rhanddeiliaid allweddol.** | |
|---|---|
| Amgylchedd a Diwylliant | Blaenoriaeth a tharged y Brifysgol mewn perthynas â'r egwyddor Amgylchedd a Diwylliant yw creu man lle gall ymchwilwyr drafod ymchwil a hyrwyddo cydweithredu a chreu man lle gall ymchwilwyr arddangos eu llwyddiannau a'r hyn a gyflawnwyd ganddynt. Eleni, aethom ati i lansio 'Boreau Coffi Ymchwil' a gynhelir unwaith y mis yn y Swyddfa Ymchwil. Mae'r boreau coffi ar agor i'r holl staff. Gall y staff ddod draw i drafod gwaith ymchwil yn anffurfiol gyda'u cymheiriaid a chyda'r swyddfa ymchwil. Bob tri mis, mae'r swyddfa ymchwil yn cynnal bore coffi caeedig ar gyfer myfyrwyr ymchwil, ymchwilwyr ôl-ddoethurol a chynorthwywyr ymchwil. Eleni, hefyd, lansiodd y Brifysgol gyfres o ddarlithoedd cyhoeddus, sef Sgyrsiau Glyndŵr, er mwyn helpu i ymestyn ei llwyfan a'i hunaniaeth ymchwil a chreu cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol. Yn 2022-23 cynhaliwyd tair o Ddarlithoedd Cyhoeddus, a chyda phob darlith gwelwyd cynnydd yn y nifer o bobl a'u mynychodd. Bydd dadansoddiad llawn o'r mynychwyr a'r adborth yn cael ei gwblhau ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.<br><br>Ers dod yn llofnodwyr, mae'r Brifysgol wedi neilltuo amser i hyrwyddo egwyddorion y Concordat Datblygu, cynllun gweithredu'r sefydliad a gwaith Gweithgor y Concordat Datblygu Ymchwil. Mae'r gweithgor wedi llunio tudalen we bwrpasol yn ymwneud â'r Concordat, sy'n cynnwys yr |

| | |
|---|---|
| | wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwn ynghyd â [fideo] rhagarweiniol. Mae strategaeth gynnwys fwy cynhwysfawr yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd fel y gellir parhau i hyrwyddo'r Concordat ac ymrwymiad y Brifysgol iddo yn fewnol ac yn allanol.<br><br>Mae ymrwymiad y Brifysgol i iechyd meddwl, llesiant a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn parhau. Erbyn hyn, mae chwe deg chwech o Hyrwyddwyr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i'w cael. Mae'r nifer hwn yn dal i gynyddu a'r bwriad yw trefnu carfannau ychwanegol ar gyfer gweddill y flwyddyn academaidd. Hefyd, mae gennym 6 o Hyrwyddwyr Menopos i ategu llesiant ein staff. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi trefnu nifer o Gaffis Menopos er mwyn rhoi cyfle i'r staff gyfarfod, sgwrsio a rhannu adnoddau ac awgrymiadau cefnogol, gyda'r bwriad o helpu'r rhai sy'n mynd trwy'r menopos. Erbyn hyn, rydym wedi penodi aelod o staff sy'n arbenigo mewn helpu sefydliadau i wella'r cymorth menopos a gynigiant, a darparwyd lle iddi gyflwyno nifer o sesiynau hyfforddi i gynorthwyo'r staff. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu hanelu at reolwyr llinell. Bydd sesiwn ar wahân ar gael er mwyn cynnig gwybodaeth gyffredinol i bwy bynnag sy'n mynd trwy'r menopos neu i bobl sy'n cynorthwyo rhywun sy'n mynd trwy'r menopos, a hefyd bydd rhaglen hyfforddi fwy dwys yn cael ei hanelu at Hyrwyddwyr Menopos gyda'r nod o'u galluogi i gael gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach er mwyn ategu eu rôl yn llawnach.<br><br>Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i Siarter Cydraddoldeb Hil Advance HE, a phenodwyd Arweinydd Prosiect penodol ar gyfer y Siarter Cydraddoldeb Hil er mwyn llywio'r camau sy'n ofynnol i ategu siwrnai'r Brifysgol tuag at ddod yn brifysgol wrth-hiliol. Dechreuwyd rhoi rhaglen ddatblygu ar waith yn 2022, a chafodd nifer o siaradwyr gwadd a sesiynau'n ymwneud â hil eu hymgorffori mewn cynadleddau a diwrnodau datblygu allweddol. Mynychodd y Tîm Hunanasesu Cydraddoldeb Hil Hyfforddiant Cydraddoldeb Hil a bydd aelod o'r Tîm Arwain Gweithredol yn mynychu hyfforddiant ar 1 Chwefror. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan fodiwl e-ddysgu yn ymwneud â chydraddoldeb hil (sef modiwl y mae'n ofynnol i'r holl staff ei gwblhau), a bydd |

| | |
|---|---|
| | sesiynau teilwredig yn cael eu cyflwyno i'r holl staff drwy gydol y ddwy flynedd nesaf. |
| <u>Cyflogaeth</u> | Yn ystod ein blwyddyn gyntaf ar ôl llofnodi'r Concordat, mae'r Brifysgol wedi canolbwyntio ar y broses gynefino a roddir ar waith ar gyfer ymchwilwyr. Dosbarthwyd ymgynghoriad a oedd yn cynnwys 5 cwestiwn ymhlith trawstoriad o ymchwilwyr ar wahanol lefelau. Lluniwyd adroddiad ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad ac fe'i rhannwyd gyda Gweithgor y Concordat. Ffurfiwyd is-grŵp bach er mwyn bwrw ymlaen â'r camau hyn. Roedd 50% o'r ymatebwyr o'r farn mai'r dull mwyaf effeithiol a chefnogol fyddai proses gynefino wyneb yn wyneb; nododd y 50% a oedd yn weddill y byddai pecyn ar-lein yn fuddiol i ategu'r sesiwn 'un i un', ond y dylid ystyried hyn fel adnodd ychwanegol yn hytrach nag fel ffordd o ddisodli'r sesiwn bersonol. Ar sail hyn, mae'r Gweithgor yn bwrw ymlaen â phroses gynefino â thri cham yn perthyn iddi, sef: sesiwn gynefino wyneb yn wyneb gyda'r ymchwilwyr newydd, a gyflwynir gan Bennaeth y Gwasanaethau Ymchwil; pecyn cynefino ar-lein y gall ymchwilwyr ei gwblhau ar ôl y cyflwyniad wyneb yn wyneb; a rhestr wirio i reolwyr llinell yr adran ar gyfer ymchwilwyr newydd. Yn ystod y broses ymgynghori, gofynnwyd hefyd pa wybodaeth y byddai ymchwilwyr yn dymuno'i gwybod ar ôl dechrau yn y Brifysgol; ystyriwyd pob un o'r atebion a bydd yr wybodaeth yn cael ei chynnwys yn y broses gynefino. |

| | |
|---|---|
| | Er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n rheoli ymchwilwyr i weld pa arweiniad pellach y gall fod angen ei roi i ategu'r broses wrth drafod cyfleoedd datblygu a gweithgareddau ymchwil gydag ymchwilwyr, anfonwyd arolwg at bawb a oedd yn rheoli ymchwilwyr. Canolbwyntiodd yr arolwg ar y math o gymorth ymchwil a gynigiant ar hyn o bryd i'r staff a pha arweiniad gan y Swyddfa Ymchwil a'r adran Adnoddau Dynol a fyddai'n cael ei werthfawrogi er mwyn cynorthwyo mwy ar reolwyr. Mae'r ymatebion yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu hadolygu gan Weithgor y Concordat. |

| | |
|---|---|
| <u>Datblygiad proffesiynol</u> | Ym marn Gweithgor y Concordat, mae hi'n bwysig cynnig diffiniad o 'ddatblygiad proffesiynol'. Mae gweithgor y concordat wedi llunio dogfen ganllawiau'n ymwneud â 'beth yw datblygiad proffesiynol', a mapiwyd elfen ymchwil y ddogfen ar sail Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae. Camau nesaf gweithgor y Concordat fydd bwrw ymlaen â hyn gyda'r adran Adnoddau Dynol, yr adran Datblygu Academaidd a'r Grŵp Llywio Dyrannu Llwyth Gwaith.<br><br>Mae digwyddiadau hyfforddi i ymchwilwyr ar gael bellach i holl staff a myfyrwyr ymchwil y Brifysgol. Lluniwyd rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi mewnol ar ddechrau'r flwyddyn ac fe'i dosbarthwyd i'r staff a'r myfyrwyr i gyd. Rhoddwyd strategaeth gyfathrebu newydd ar waith er mwyn ategu presenoldeb yn y sesiynau hyn. O gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2021/22), mae'r Swyddfa Ymchwil wedi dyblu'r nifer o sesiynau hyfforddi a gynigir yn 2022/23. Ychwanegwyd sesiynau newydd ar sail ffurflenni adborth y flwyddyn flaenorol. Ychwanegwyd gweithdai Effaith Ymchwil a Moeseg Ymchwil ar sail adborth a gafwyd mewn Cynlluniau Ymchwil Personol. Bydd dadansoddiad llawn o adborth a phresenoldeb yn cael ei gwblhau ar ddiwedd y flwyddyn hyfforddi.<br><br>Yn 2021-22, derbyniodd a dyfarnodd y Swyddfa Ymchwil dair ar ddeg o 'Wobrau Cyfrannu at Gynadleddau'. Derbyniwyd un ar ddeg o wobrau gan staff a dwy gan fyfyrwyr PhD. Cyflwynwyd ffurflen adborth er mwyn i'r staff a'r myfyrwyr allu cofnodi eu profiad o dderbyn yr arian a nodi'r modd y mae wedi effeithio ar ddatblygiad eu hymchwil, pa ganlyniadau posibl sydd wedi deillio o hyn, a pha un a oes unrhyw waith dilynol neu gynlluniau ar y gweill ar gyfer y dyfodol. Hefyd, gofynnir i'r rhai sydd wedi derbyn yr arian fynychu 'Tŷ Agored ar gyfer Ymchwil'. Yn ôl adborth a gyflwynwyd eleni gan un aelod o staff: |

| | |
|---|---|
| | "Rydw i'n credu bod cyfleoedd o'r fath yn bwysig iawn er mwyn ein gwneud yn fwy gweledol ac amlwg fel sefydliad ymchwil datblygol."<br><br>Anfonwyd ymgynghoriad trwy e-bost at staff a myfyrwyr ynglŷn â'r Gwobrau Datblygu. Rhoddwyd gwybod y byddai rhagor o gyfathrebu, arweiniad a ffurflenni cais enghreifftiol yn ddefnyddiol. Ymhellach, dangosodd yr ymgynghoriad y byddai mathau eraill o wobrau datblygu yn cael eu gwerthfawrogi, er mwyn annog datblygiadau ymchwil. Ar sail yr ymgynghoriad hwn, aeth y Pwyllgor Ymchwil ati i gymeradwyo'r syniad o gyflwyno proses Gwobrau Datblygu Ymchwil a ffurflen gais; mae'r gwaith hwn ar y gweill ar hyn o bryd.<br><br>Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn aelod o *Rwydwaith Concordat Datblygu Ymchwil Cymru* sy'n cynnwys cynrychiolwyr o holl Brifysgolion Cymru. Er mwyn cydnabod bod symud rhwng sectorau cyflogaeth, a gweithio ar eu traws, yn gallu esgor ar fanteision i ymchwil ac i ymchwilwyr, mae'r rhwydwaith yn cydweithio i gynnal cyfres o hanesion gyrfa gan ymchwilwyr a ddechreuodd eu gyrfaoedd yn sefydliadau Cymru ac sydd bellach wedi mynd yn eu blaen i wneud pethau eraill diddorol a chyffrous. Bydd y gyfres hon yn rhoi cyfle i'n hymchwilwyr glywed am drywydd gyrfaoedd y rhai a ddechreuodd eu gyrfaoedd yn sefydliadau addysg uwch Cymru, a bydd yn dangos y modd y mae ein sefydliadau addysg uwch yn cyfrannu at ddatblygu gweithlu talentog, hynod fedrus ar gyfer Cymru, y DU a thu hwnt. Diben y digwyddiadau hyn yw rhoi cipolwg i ymchwilwyr gyrfa gynnar ar yr amryfal opsiynau sydd ar gael o ran eu gyrfaoedd ochr yn ochr â'r llwybr academaidd "traddodiadol", a chânt eu hanelu at ymchwilwyr ôl-raddedig ac ôl-ddoethurol. Bydd Glyndŵr yn cynnal gweminar olaf y gyfres yn ystod mis Mai 2023. |
| **Gwersi a ddysgwyd a Heriau** | |

Mae llawer o'r dulliau a ddefnyddiwn i fesur llwyddiant wedi'u seilio ar ymatebion i arolygon, naill ai arolygon mewnol neu arolygon CEDARS. Gan fod ein harolwg staff mewnol yn cael ei ddosbarthu bob dwy flynedd a chan nad yw arolwg CEDARS 2023 wedi cael ei ryddhau eto, tasg anodd yw mesur llwyddiant y targedau a'r camau gweithredu sydd ar y gweill gennym ar hyn o bryd. Wrth symud ymlaen, bydd Gweithgor y Concordat yn ymchwilio i ddulliau effeithiol o fesur llwyddiant – dulliau y gellir eu cofnodi'n ddi-oed er mwyn dangos pa mor effeithiol yw'r camau a gymerwn.

Un maes y mae Gweithgor y Concordat a'r Swyddfa Ymchwil wedi canolbwyntio arno yw mynd ati'n effeithiol i gyfathrebu'r Concordat a'r cyfleoedd ymchwil sydd ar gael i staff a myfyrwyr. Bydd y Swyddfa Ymchwil yn parhau i weithio gydag adrannau eraill y Brifysgol, yn cynnwys yr adran Adnoddau Dynol a'r adran Gyfathrebu a Marchnata, er mwyn sicrhau y gallwn fwrw ymlaen ag egwyddorion ac ymrwymiadau'r Concordat fel sefydliad.

**Edrych Tua'r Dyfodol**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd gwych o ran ein cynllun gweithredu dwy flynedd. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar fwrw ymlaen â'n camau gweithredu a phennu datblygiadau a chyfleoedd newydd fel Gweithgor.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnal sawl ymgynghoriad er mwyn sicrhau bod ein hymchwilwyr a'u rheolwyr yn cael eu hystyried yn rhanddeiliaid allweddol ac er mwyn rhoi cyfle iddynt gymryd rhan mewn mentrau penderfynu perthnasol. Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym eisiau sicrhau y bydd yr adborth a'r ymatebion a gawsom yn cael eu hystyried wrth inni fwrw ymlaen â'n cynllun gweithredu. Rydym eisiau casglu mesurau llwyddiant mewn perthynas â'r camau a gymerwyd gennym yn barod. Yn ystod ein hail flwyddyn fel llofnodwyr, byddwn yn canolbwyntio ar y camau sy'n weddill yn ein cynllun gweithredu, yn cynnwys:

- Sicrhau bod y polisïau a'r arferion sefydliadol sy'n berthnasol i ymchwilwyr yn gynhwysol, yn deg ac yn dryloyw, a'u bod yn cael eu cadw ar blatfform sy'n hygyrch i'r staff a'r myfyrwyr i gyd.
- Cynnal adolygiad a dadansoddiad o fylchau mewn perthynas â'r Concordat Cywirdeb Ymchwil ynghyd â sefydlu cwrs hyfforddi ar-lein yn ymwneud â Moeseg Ymchwil a Chywirdeb Ymchwil, a fydd ar gael i'r staff a'r myfyrwyr i gyd.

- Llunio hyfforddiant pwrpasol i'r rhai sy'n rheoli ymchwilwyr mewn cyfarfodydd adolygu Ymchwil, Iechyd Meddwl a Llesiant, a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Adolygu Cynlluniau Ymchwil Personol a chyflwyno proses newydd ar eu cyfer lle bydd modd i ymchwilwyr gynnwys cynllun datblygu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

| |
|---|
| **Nodwch ddatganiad byr yn disgrifio'r broses a roddir ar waith gan eich sefydliad i gymeradwyo'r adroddiad hwn cyn iddo gael ei gadarnhau gan y corff llywodraethu.** |
| Ysgrifennir yr adroddiad blynyddol gan Bennaeth y Gwasanaethau Ymchwil a Chadeirydd Gweithgor y Concordat, sydd hefyd yn Ddeon Cyswllt ar gyfer Ymchwil ac yn Diwtor Ymchwil Ôl-raddedig. Yn achos camau y bwriwyd ymlaen â nhw ac a gynhwysir yn yr adroddiad, caiff diweddariadau ynglŷn â'u cynnydd eu trafod gyda'r Swyddfa Ymchwil, yr adran Adnoddau Dynol a Gweithgor y Concordat. Cyflwynir yr adroddiad gerbron y Pwyllgor Ymchwil (a gadeirir gan y Dirprwy Is-ganghellor dros Ymchwil) i'w gymeradwyo, cyn ei drosglwyddo i Fwrdd y Llywodraethwyr i'w gymeradwyo drachefn. |

Llofnod ar ran y corff llywodraethu:

Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau:

Bydd yr adroddiad blynyddol hwn yn cael ei ddadansoddi gan Universities UK, sef ysgrifenyddiaeth y Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr, er mwyn pennu arferion da, themâu i'w datblygu a gwybodaeth ar gyfer gwella polisïau ac arferion y diwylliant ymchwil cenedlaethol.

Os oes gennych ymholiadau neu awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir gwella'r broses adrodd, cysylltwch â'r ysgrifenyddiaeth ar CDRsecretariat@universitiesuk.ac.uk

www.researcherdevelopmentconcordat.ac.uk